# DAVIES, JOHN ('John Davies, Nantglyn'; 1760 - 1843), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd.



**Enw:** John Davies
**Ffugenw:** John Davies, Nantglyn';
**Dyddiad geni:** 1760
**Dyddiad marw:** 1843
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd.
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ni ellir yma wneuthur cyfiawnder â'r gwreiddioldeb a'i nodweddai, ond y mae *Cofiant* byr iddo gan T. Parry (Caerlleon, 1844), a chynhwysir ei hunangofiant yn hwnnw - gweler sylwadau Henry Rees arno, yn *Y Drysorfa*, 1844, 151; ganwyd 1 Hydref 1760 yn y Glythan Uchaf, Henllan (Dinbych), ac ni chafodd ysgol ond yn un o ysgolion Madam Bevan. Argyhoeddwyd ef yn 1778 gan John Evans o Gil-y-cwm, a dechreuodd bregethu yn 1785; yr oedd yn un o'r rhai a ordeiniwyd yn urddiad cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd yn 1811. Serch iddo ddioddef cryn erlid, enillodd boblogrwydd mawr fel pregethwr, ledled Cymru ac yn Llundain. Priododd yn 1787 (bu ganddo bump o blant), a symudodd i fyw yn Nant-yr-hengoed, Nantglyn; ar farw ei briod (1837) aeth i fyw yn nhref Ddinbych. Bu farw 10 Mehefin 1843.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

Y ffynonellau a enwyd uchod, gydag E. P. Jones, *Methodistiaeth Galfinaidd Dinbych, 1735–1909* (1936), 1936, 155-7

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 24251463

Wikidata: Q20733371

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu